

Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwaith Craffu Blynyddol 2023- 24

Mai 2024

Cyflwyniad

- Cafodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei greu gan Lywodraeth Cymru ar 1 Ebrill 2013, gan uno tri chorff: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Ymgorfforodd hefyd nifer o gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ac, o 1 Ebrill 2016, swyddogaethau'r tri Bwrdd Draenio Mewnol a fu'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru.
- Yn ogystal ag ystod eang o gyfrifoldebau gweithredol a rheoleiddiol, Cyfoeth Naturiol Cymru yw prif gynghorydd Llywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud ag adnoddau naturiol. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, mae'n atebol i Weinidogion Cymru drwy'r Gweinidog Nawdd (Julie James, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ar adeg y sesiwn graffu), ac yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau perthnasol y Senedd. Mae Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn arfer ei swyddogaethau deddfwriaethol yn briodol ac yn effeithiol.
- Ar 18 Ionawr 2024, ymddangosodd cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, gerbron y Pwyllgor ar gyfer sesiwn graffu. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cydweithrediad.



1. Llywodraethiant

Llythyr cylch gwaith

4. Mae llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth 2022-26 yn nodi y dylai CNC integreiddio ei waith a'i weithgareddau â'r nodau llesiant cyffredinol a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Disgwylir i CNC helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ynghylch y canlynol:

- Yr Economi Gylchol ac Aer Glân;
- Ynni;
- Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Draenio Cynaliadwy ac Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd;
- Coedwigaeth, Natur, Tirweddau Dynodedig a Mynediad i Gefn Gwlad;
- Y Môr a Physgodfeydd; ac
- Ansawdd Dŵr.

Cynllun corfforaethol

5. Cyhoeddwyd cynllun corfforaethol diweddaraf CNC, sef Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd, ym mis Ebrill 2023. Mae'n cyd-fynd â llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth, ac yn canolbwyntio ar dri Amcan Llesiant: Byd natur wrthi'n gwella, Cymunedau yn gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf.

6. Nododd Clare Pillman mai hwn yw'r cynllun corfforaethol cyntaf i CNC ei gyhoeddi ers 2018 a'r cyntaf ers i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd a natur. Dywedodd fod y tri amcan llesiant sydd yn y cynllun wrth wraidd popeth y mae CNC yn ei wneud.

7. Dywedodd Syr David Henshaw fod y cynllun yn foment hollbwysig i CNC, gan ddweud ei fod yn gyfystyr â newid sylweddol o ddisgrifio swyddogaethau'r sefydliad i roi pwyslais ar flaenoriaethau a chyflawni. Dywedodd:

"what we have to do is look at each of the priorities in the context of the new corporate plan, and I think that's an opportunity as well as, frankly, quite challenging in some cases, but it is a moment to start thinking, 'Do we do things differently in some areas?'"

Cytundebau lefel gwasanaeth

8. Wrth graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, rhoddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ar y pryd sicrwydd i'r Pwyllgor fod ymdrechion ar y gweill i sicrhau bod adnoddau CNC yn adlewyrchu ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau. Datblygodd CNC a Llywodraeth Cymru Gytundebau Lefel Gwasanaeth ar y cyd mewn deg maes blaenoriaeth, gyda'r bwriad o nodi'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwahanol lefelau gwasanaeth. Y 10 maes blaenoriaeth yw:

- rheoli perygl llifogydd;
- ystad CNC;
- rheoli digwyddiadau llygredd;
- gorfodi;
- ansawdd dŵr;
- galluogi plannu coed;
- monitro dŵr croyw;
- monitro morol;
- monitro daearol; a
- Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

9. Eglurodd Prys Davies fod datblygu cytundebau lefel gwasanaeth pellach wedi'i oedi yn rhannol oherwydd pwysau ariannol, a hefyd y gwaith y mae CNC eisiau ei wneud o ran ymwreiddio'r cynllun corfforaethol, datblygu'r dangosyddion strategol, edrych eto ar ei drefniadau fframwaith perfformiad a'i brosesau adrodd. Eglurodd ei bod yn debygol y byddai'r gwaith yn aildechrau ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf (ym mis Ebrill 2024).

10. Mewn ymateb i gwestiwn am adborth gan randdeiliaid ynghylch y cytundebau lefel gwasanaeth, esboniodd Clare Pillman eu bod wedi'u datblygu fel mecanweithiau mewnol i godeiddio y gwasanaethau y gallai Llywodraeth Cymru eu disgwyl yn seiliedig ar y cyllid a ddyrannwyd i CNC. Felly, nid oeddent wedi bod yn destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, cytunodd y gallai fod yn

ddefnyddiol trafod lefelau gwasanaeth gyda rhanddeiliaid a'r cyhoedd yng ngoleuni pwysau ariannol, a hynny i wella dealltwriaeth o'r gwasanaethau y gall CNC eu darparu.

Cynllun busnes a mesurau perfformiad

11. Mae Cynllun Busnes 2023-24 CNC wedi'i strwythuro o amgylch y tri amcan llesiant yn y Cynllun Corfforaethol, gyda'r camau i'w cymryd a'r mesurau sydd eu hangen i gyflawni'r amcanion hynny. I asesu cynnydd, mae CNC yn datblygu dangosyddion strategol sy'n cyd-fynd â'r amcanion llesiant, a fydd yn cael eu cefnogi gan fetrigau a cherrig milltir perfformiad gweithredol sy'n cyd-fynd â'r cynllun busnes blynyddol.

12. Dywedodd CNC y byddai datganiadau effaith a dangosyddion strategol drafft newydd sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r cynllun corfforaethol yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2024. Mae'r datganiadau effaith drafft yn edrych tuag allan, gan gydnabod na all CNC eu cyflawni ar ei ben ei hun. Mae 12 dangosydd strategol drafft wedi'u nodi i fesur cynnydd. Cyhoeddwyd y rhain i ymgynghori arnynt¹ ym mis Mawrth 2024. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd CNC:

“Bydd perfformiad yn erbyn yr effeithiau drafft a'r dangosyddion strategol yn destun gwaith craffu gan y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd mewn trafodaethau strategol am yr amcanion llesiant drwy gydol y flwyddyn.”

13. Ar ôl eu cyhoeddi, bydd y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol drafft yn cael eu hasesu a'u profi cyn cael eu cwblhau yn hydref 2024 ac, ar ôl hynny, byddant yn parhau i fod yn sefydlog hyd at 2030.

Recriwtio a sgiliau

14. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd CNC fod ei Strategaeth Pobl (2022-2025) “yn gofyn am ddatblygu Cynllun Gweithlu Strategol i lywio penderfyniadau ledled y busnes” a thynnodd sylw at ymdrechion i feithrin perthnasoedd â'r byd academaidd.

15. Dywedodd Clare Pillman fod recriwtio i bob pwrpas wedi'i rewi o ddechrau mis Awst 2023. Eglurodd Prys Davies fod peth recriwtio allanol wedi digwydd, ond mai eithriadau oedd y rhain. Eglurodd, yn sgil rhewi'r prosesau recriwtio, fod CNC

¹ <https://ymgynghori.cyfoethnaturiol.cymru/corporate-strategy/our-corporate-plan-to-2030-our-strategic-indicator/>

gwella o ran symud staff o amgylch y sefydliad i feysydd lle roedd angen adnoddau staffio.

16. Dywed adroddiad perfformiad 2022-23 CNC fod recriwtio yn parhau i fod yn her sylweddol ar draws meysydd proffesiynol allweddol, “yn enwedig ym meysydd rheoli perygl llifogydd a pheirianeg”. Cafodd recriwtio ei nodi fel risg strategol, ac roedd CNC wedi “comisiynu cymorth allanol gan arbenigwyr i'n helpu i wella'r ffordd rydym yn recriwtio”. Eglurodd Prys Davies y byddai'r gwaith hwn yn caniatáu i CNC edrych ar y gweithlu yn y tymor hwy. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i'r rhannau hynny o'r sefydliad a oedd wedi cael anawsterau o ran recriwtio a chadw.

Ffyrdd o weithio ar ôl y pandemig

17. Cyflwynodd CNC raglen Adfywio/Renewal yn sgil y pandemig COVID-19, gyda'r nod o gefnogi trawsnewid y sefydliad yn endid mwy ystwyth, gwydn ac effeithlon.

18. Wrth egluro'r rhaglen, canolbwyntiodd Prys Davies ar dri maes allweddol: adeiladau, fflyd CNC, a staffio. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod gan CNC gynllun adeiladau hirdymor deinamig. Bu CNC yn archwilio cyfleoedd i rannu lleoliad â sefydliadau eraill, ac roedd cyfleoedd newydd yn cael eu harchwilio ar gyfer prydles neu gontractau a oedd yn dod i ben neu'n cael eu newid. Roedd hyn yn cynnwys symud y swyddfa gorfforaethol i swyddfeydd sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd. Byddai hyn yn cynnig arbedion disgwylidig rhwng £3 a £4 miliwn dros 10 mlynedd a byddai'n haneru allyriadau o ganlyniad i wres a thrydan.

19. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd CNC y byddai'n datblygu cynllun cyflawni ar gyfer datgarboneiddio gwres yn ei ystâd adeiledig, ond nododd fod disgwyl i “gost y mesurau sydd eu hangen... fod yn sylweddol ac mae cyflymder y gwaith hwn wedi'i gyfyngu gan yr adnoddau staffio sydd ar gael”.

20. Roedd CNC yn archwilio cyfleoedd i wneud ei fflyd cerbydau yn fwy effeithlon a symud i ffwrdd o gerbydau diesel a thanwydd ffosil, ac eithrio mewn achosion eithriadol. Byddai strategaeth fflyd a theithio yn cael ei chyhoeddi yn ystod 2024-25.

21. O ran staff CNC, dywedodd Prys Davies fod canlyniadau arolygon staff wedi dangos bod staff yn gwerthfawrogi hyblygrwydd. Mae CNC yn addasu i amgylchedd gwaith ar ôl y pandemig, gyda chyfuniad o weithio o bell ac ar y safle, yn dibynnu ar natur y rôl neu swyddogaethau'r tîm neu'r adran.

Ein barn ni

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, rydym yn cefnogi cytundebau lefel gwasanaeth fel mecanweithiau i sicrhau bod adnoddau CNC yn adlewyrchu ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol. Nodwn, hyd yn hyn, fod cytundebau lefel gwasanaeth wedi cael eu datblygu ar draws 10 maes blaenoriaeth, ac mae cynlluniau ar gyfer cytundebau lefel gwasanaeth i gwmpasu'r agweddau sy'n weddill ar fusnes CNC. Er ein bod yn cydnabod pam fod y gwaith hwn wedi'i oedi, credwn y gall y cytundebau lefel gwasanaeth gyflawni diben gwerthfawr ar gyfer pennu blaenoriaethau. Hoffem pe bai CNC yn rhannu amlinelliad â ni o gam nesaf y gwaith cytundebau lefel gwasanaeth, gan gynnwys y meysydd sydd i'w cynnwys a llinell amser ar gyfer eu datblygu a'u gweithredu.

Nodwn y sylwadau y datblygwyd cytundebau lefel gwasanaeth fel mecanweithiau mewnol heb ymgynghori allanol. Fodd bynnag, credwn y gallai'r diffyg ymgynghoriad hwn gyfyngu ar eu heffeithiolrwydd. Credwn ei bod yn fuddiol ymgynghori â rhanddeiliaid ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer cam nesaf y cytundebau lefel gwasanaeth.

Nodwn fod CNC wedi lansio ymgynghoriad ar ei ddangosyddion strategol a metrigau perfformiad. Byddem yn croesawu diweddariad ar gynnydd unwaith y bydd yr ymgynghoriad wedi dod i ben ddiwedd mis Hydref 2024.

Rydym yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau drwy'r rhaglen Adfywio/Renewal, sy'n ymddangos fel pe bai'n cyflawni arbedion sylweddol mewn perthynas ag adeiladau a fflyd CNC yn arbennig.

Yn ein hadroddiad diwethaf, roedden yn annog CNC i feithrin perthynas agosach â sefydliadau addysg i fynd i'r afael â heriau recriwtio. Roeddem yn falch o glywed y gwnaed peth cynnydd. Fodd bynnag, nodwn fod CNC yn wynebu heriau recriwtio pellach oherwydd cyfyngiadau cyllidebol. Rydym yn cytuno â'r dull gweithredu y mae CNC wedi'i fabwysiadu hyd yma – sef bod yn rhaid llenwi rhai swyddi hanfodol drwy recriwtio, os oes angen. Credwn fod yn rhaid i CNC ymateb i'r cyfyngiadau cyllidebol hyn drwy wella datblygiad a hyblygrwydd staff mewnol er mwyn sicrhau bod modd llenwi swyddi gwag sy'n hanfodol i fusnes yn gyflym.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai CNC fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cytundebau lefel gwasanaeth ar draws yr holl feysydd o'i fusnes sy'n weddill a rhoi amlinelliad manwl o gam nesaf y gwaith cytundebau lefel gwasanaeth, gan gynnwys meysydd penodol i'w cynnwys ac amserlen.

Argymhelliad 2. Dylai CNC archwilio cyfleoedd i ymgysylltu â rhanddeiliaid i fireinio a gwella effeithiolrwydd y cytundebau lefel gwasanaeth, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y cam nesaf o ddatblygu'r cytundebau lefel gwasanaeth.

Argymhelliad 3. Dylai CNC roi diweddariad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 31 Hydref 2024 ar hynt y gwaith o ddatblygu dangosyddion strategol a metrigau perfformiad terfynol.

2. Cyllideb

22. Mae CNC yn cael cyllid craidd ar gyfer ei swyddogaethau sylfaenol, a chyllid grant ychwanegol ar gyfer prosiectau y tu hwnt i'r swyddogaethau hynny. Cyfanswm incwm CNC ar gyfer 2022-23 oedd £116 miliwn, gan gynnwys £22 miliwn o grantiau Llywodraeth Cymru tuag at ystod o ganlyniadau. At hynny, darparodd Llywodraeth Cymru £118 miliwn mewn Cymorth Grant, a dyrannwyd £41 miliwn ohono i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

23. Cynyddodd cyfanswm gwariant CNC am y flwyddyn o £255 miliwn i £272 miliwn (o gymharu â chynnydd o £225 miliwn yn 2021-22).

24. Arhosodd dyraniadau'r gyllideb (cyllid craidd) i CNC yr un fath yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24. Cafodd CNC £18.2 miliwn yn rhagor o gyllid i'w dynnu i lawr yn 2023-24.

25. Yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2024-25, dyraniad adnoddau CNC yw £88.2 miliwn, sef cynnydd o £18.2 miliwn o gymharu â'r gyllideb ddangosol.

Pwysau cyllidebol a rheoli'r gyllideb

26. Tynnodd tystiolaeth ysgrifenedig CNC sylw at y pwysau a wynebier o ran ymdopi â chostau cynyddol. Roedd CNC yn adolygu ei holl weithgareddau i asesu lle byddai modd gwneud gostyngiadau pellach yn y gyllideb a phwysleisiodd ei fod "wedi ymrwymo i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd mwyaf posibl i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen". Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig yn egluro:

"Er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd hynny, bydd angen buddsoddi ac rydym yn trafod gyda Llywodraeth Cymru (LIC)... y posibilrwydd o wneud cais Buddsoddi i Arbed."

27. Pan ofynnwyd iddi am gyllid CNC, dywedodd Clare Pillman nad oedd erioed wedi gweld y fath sefyllfa gyllidebol heriol. Dywedodd y byddai gan CNC fwllch sylweddol yn ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn sgil costau cynyddol, gostyngiad mewn incwm pren, a dyraniadau cymorth grant sydd heb eu cynyddu. O ran y dyraniadau cymorth grant hyn, dywedodd Clare Pillman:

"the fact is that that money buys about 25 per cent less now than it did when it was allocated to us in 2021. That's true of local authorities or other public sector bodies, who've seen inflation across every aspect of our businesses, whether it's staff costs, whether it's fuel costs, whether it's buying goods and materials."

28. Dywedodd nad oes modd gweithio gyda chyllideb is a llai o bobl, a darparu'r un gwasanaethau. O ganlyniad, byddai'n rhaid i CNC wneud penderfyniadau am y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac a oes angen mabwysiadu dull gweithredu gwahanol. Byddai CNC yn ystyried y materion hyn drwy lens y blaenoriaethau yn y cynllun corfforaethol. Dywedodd:

"That means that we will have to be looking at every aspect of our budget, and looking at stopping some things, scaling back others, de-scoping others, thinking about how to do things differently, or actually investing in some new areas and doing things better."

29. Ychwanegodd Clare Pillman fod y broses hon yn mynd rhagddi, ac y byddai Bwrdd CNC yn ystyried yr opsiynau dros yr wythnosau nesaf. Bu CNC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y broses hon er mwyn deall effaith y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud.

30. Cydnabu Syr David Henshaw fod y sefyllfa ariannol yn hynod o anodd a bod adnoddau'n gyfyngedig iawn. Dywedodd fod hyn yn rhoi cyfle i CNC ailystyried ei ddull gweithredu mewn ffordd gadarnhaol a gweld a allai sicrhau canlyniadau mewn ffordd wahanol.

Y posibilrwydd o gau canolfannau ymwelwyr

31. Tua'r un adeg â'r sesiwn graffu gyda CNC, cafwyd adroddiadau bod CNC yn ystyried cau canolfannau fel y rhai yn Ynyslas, ger Borth, Ceredigion, Bwlch Nant yr Arian, ger Ponterwyd, Ceredigion, a Choed y Brenin, ger Dolgellau, Gwynedd.

32. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a allai'r pwysau ariannol arwain at gau canolfannau ymwelwyr CNC, dywedodd Clare Pillman nad oedd unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud. Er hynny, mae'r sefyllfa ariannol mor heriol fel bod yn rhaid i CNC ystyried yr holl opsiynau.

Ein barn ni

Rydym yn nodi bod CNC yn wynebu diffyg cyllid sylweddol, sydd wedi gwaethygu yn sgil costau cynyddol a dyraniadau cymorth grant nad ydynt yn cyd-fynd â chwyddiant. Credwn ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru a CNC i gydweithio i sicrhau y caiff effaith negyddol y setliad cyllidebol hwn ei lleihau. Credwn y bydd y cynlluniau corfforaethol a busnes yn amhrisiadwy o ran ffocysu adnoddau prin.

Rydym yn nodi bod CNC wedi atal recriwtio, ac rydym yn pryderu y gallai hyn effeithio ar ei allu i ddarparu gwasanaethau. Nodwn sylwadau CNC am yr angen

i flaenoriaethu rhai gwasanaethau a chwtdogi rhai eraill. Credwn ei bod yn hollbwysig bod CNC yn cyflwyno proses flaenoriaethu strategol i benderfynu pa wasanaethau sy'n hanfodol ac y mae'n rhaid eu cadw, pa rai y gellir eu cwtdogi, a lle mae modd gwneud arbedion effeithlonrwydd heb beryglu swyddogaethau craidd.

Rydym yn pryderu bod penderfyniadau ynghylch cwtdogi neu ailstrwythuro gwasanaethau yn cael eu hystyried heb ymgynghori â'r cyhoedd na rhanddeiliaid. Credwn y byddai'n werth datblygu strategaeth ymgysylltu i reoli disgwyliadau ac egluro'r rhesymeg y tu ôl i newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau.

Fel y nodwyd yn ein hadroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gau bwldch ariannu CNC yn barhaol. Nodwn, fodd bynnag, fod amgylchiadau annisgwyl fel lefelau chwyddiant uchel a phwysau cyflog staff wedi golygu nad yw'r cyllid ychwanegol hwn wedi pontio'r bwldch yn llawn fel y gobeithiwyd.

Yn olaf, nodwn bryderon y gallai pwysau ariannol arwain at gau canolfannau ymwelwyr allweddol, a fydd yn effeithio'n sylweddol ar dwristiaeth ac ymgysylltiad â'r gymuned. O ystyried pwysigrwydd canolfannau o'r fath, credwn y dylai CNC wneud popeth yn ei allu i sicrhau eu bod yn aros ar agor. Disgwyliwn i CNC adrodd i'r Pwyllgor hwn yn y chwe mis nesaf ar statws ei ganolfannau ymwelwyr a'i gynlluniau yn y maes hwn.

Argymhellion

Argymhelliad 4. Dylai CNC weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu strategaethau sy'n lleihau effeithiau negyddol setliad presennol y gyllideb a sicrhau y caiff gwasanaethau hanfodol eu cynnal er gwaethaf y diffyg cyllid.

Argymhelliad 5. Dylai CNC ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu sy'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch penderfyniadau ar gwtogi neu ailstrwythuro gwasanaethau. Dylai'r strategaeth hon geisio rheoli disgwyliadau ac esbonio newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau.

Argymhelliad 6. Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law am fanylion a chanlyniad ei gais buddsoddi i arbed.

Argymhelliad 7. Dylai CNC adrodd i'r Pwyllgor yn y chwe mis nesaf ar statws ei ganolfannau ymwelwyr ac amlinellu cynlluniau i barhau i'w gweithredu.

3. Materion eraill

Bioamrywiaeth

33. Cytunwyd ar fframwaith bioamrywiaeth byd-eang COP15 ym mis Rhagfyr 2022, gyda tharged cyffredinol i ddiogelu 30 y cant o ardaloedd daearol, dŵr mewndirol ac arfordirol a morol erbyn 2030.

34. Yn 2022, comisynodd Llywodraeth Cymru archwiliad dwfn o fioamrywiaeth i baratoi ar gyfer COP15. Cyhoeddwyd yr argymhellion ym mis Hydref 2022, a chyhoeddwyd diweddariad ym mis Mai 2023.

35. Mae nifer o'r argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad dwfn yn berthnasol i CNC, er enghraifft:

- Sicrhau bod safleoedd gwarchoddedig (rheoli, monitro, dynodi), ar y tir a'r môr, yn flaenoriaeth i CNC, a hynny drwy strategaethau corfforaethol ac at y dyfodol a thrwy ddarparu cyllid digonol.
- Cynyddu capasiti cyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd drwy ddull gweithredu graddol, fel bod y rhaglen yn cyflawni erbyn 2030 ar raddfa sy'n gallu cyrraedd targed sero net 2050 o adfer 45,000 hectar o fawndir.
- Cwblhau rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchoddedig er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r diffygion o ran gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o ddiddordeb cadwraeth, sicrhau bod rhywogaethau a chynefinoedd yn cael eu cynrychioli'n dda, a bod y rhwydwaith wedi'i gysylltu ac yn gydlynol yn ecolegol.

Heriau a chyllid ar gyfer bioamrywiaeth

36. Mae adroddiad Llwybrau i 2030 Cyswllt Amgylchedd Cymru yn nodi camau blaenoriaeth ar gyfer adferiad natur hyd at 2030, a'r buddsoddiad cyhoeddus sydd ei angen i'w cyflawni, gan gyfeirio at gapasiti CNC.

37. Er enghraifft, ar ddiogelu a monitro safleoedd, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at Asesiad Gwaelodlin 2020 CNC a asesodd gyflwr nodweddion dŵr croyw a nodweddion daearol ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Dangosodd y canlyniadau nad oes gan CNC ddigon o dystiolaeth i bennu cyflwr tua hanner y nodweddion ar y safleoedd hyn (cyflwr a ddosberthir yn "anhysbys").

Ar gyfer y nodweddion hynny lle'r oedd tystiolaeth ar gael, amcangyfrifwyd bod 20 y cant mewn cyflwr "ffafriol". Roedd 30 y cant yn "anffafriol", ac nid oedd y 50 y cant a oedd yn weddill "mewn cyflwr dymunol".

38. Dywedodd adroddiad Llwybrau i 2030 y bydd angen mwy o staff ac adnoddau yn CNC ar gyfer rheoli, monitro, a gorfodi er mwyn mynd i'r afael â hyn. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

"Current levels of staffing at NRW for the management and monitoring of protected sites are not precisely known but could amount to around 60 people. As a minimum, it is likely that this number would need to be doubled to address the challenges identified. This would require additional staffing costs of £3.6 million (including overheads, at a cost of £60,000 per FTE). There would be additional costs for equipment, evidence and contracted services, suggesting the need for an annual budgetary increase of at least £5 million."

39. Tynnodd Clare Pillman sylw at y dirwedd ariannu bresennol ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru, gan nodi argaeledd dyraniadau cyllideb o ffynonellau lluosog, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chyrrff anllywodraethol amgylcheddol. Pwysleisiodd, er bod digon o arian, fod wastad modd gwario mwy. Yr her yw integreiddio'r ffrydiau ariannu amrywiol hyn. Pwysleisiodd Clare Pillman ei bod yn credu mai'r hyn sy'n allweddol yw cael yr holl wahanol gronfeydd i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd, a chydabu rôl yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth o ran cynnig arweinyddiaeth benodol i'r ymdrechion hyn.

40. Trafododd Clare Pillman yr heriau penodol o ran rheoli safleoedd SoDdGA, yn enwedig wrth gyflawni nodau amgylcheddol ehangach megis y targed 30x30. Cadarnhaodd yr ymrwymiad i ehangu dynodiadau SoDdGA a gwella arferion rheoli, gan nodi bod peth arian yn y gyllideb ar gyfer cytundebau rheoli tir ar safleoedd o'r fath. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech barhaus i amddiffyn safleoedd yn well o dan gyfyngiadau'r cyllid sydd ar gael a blaenoriaethau strategol.

41. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno Bil i gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol a sefydlu corff llywodraethu amgylcheddol i Gymru, a hynny i fesur a sbarduno cynnydd tuag at gyflawni cytundeb COP15. Cyhoeddwyd papur gwyn ym mis Ionawr 2024. Dywedodd Clare Pillman fod CNC yn helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r targedau hynny.

Mynd i'r afael â llygredd dŵr sy'n deillio o amaethyddiaeth

42. Nod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yw mynd i'r afael ag achosion llygredd dŵr sy'n deillio o amaethyddiaeth.

43. Mae'r Rheoliadau'n cynnwys terfyn blynyddol o ran nitrogen fesul daliad o 170kg/ha, a oedd i fod i gael ei weithredu i ddechrau ar 1 Ionawr 2023. Cytunodd Llywodraeth Cymru, drwy ei Chytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru, i ohirio gweithredu'r terfyn 170kg/ha tan fis Ebrill 2023. Cytunodd hefyd i ymgynghori ar gynllun trwyddedu sy'n caniatáu i ffermydd cymwys gymhwyso terfyn uwch o 250kg/ha.

44. Yn dilyn ymgynghoriad ar gynllun trwyddedu, cyhoeddodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig ar y pryd, gynllun dros dro, 'Dull Rheoli Maethynnau Uwch', ym mis Hydref 2023.

45. Mae'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch yn rhedeg rhwng 1 Ionawr 2024 a 31 Rhagfyr 2024. Mae'n gweithredu pan fo cynlluniau rheoli maethynnau 2024 yn dangos ei bod yn debygol y bydd mwy na'r gyfradd flynyddol, sef 170kg/ha nitrogen, o dail da byw. Rhaid i fusnesau fferm roi gwybod i CNC erbyn 31 Mawrth 2024 a chymryd camau gweithredu sy'n gyson ag amodau'r drwydded arfaethedig.

46. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y Rheoliadau, a chyhoeddwyd chanllawiau pellach ar y Dull Rheoli Maethynnau Uwch ar 15 Rhagfyr 2023.

Gorfodi

47. Mae gan Lywodraeth Cymru gytundeb lefel gwasanaeth gyda CNC i gefnogi camau gorfodi y Rheoliadau. Mae £2.55 miliwn wedi'i ymrwymo at y diben hwn, wedi'i rannu rhwng £1 miliwn ym mlwyddyn ariannol 2023-2024 ac £1.55 miliwn yn 2024-25. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig CNC yn egluro bod cynnydd mewn cyllid ym mlwyddyn 2 yn deillio o recriwtio staff yn ystod blwyddyn 1.

Asesiadau ac adolygiad polisi sy'n mynd rhagddynt

48. Roedd y Rheoliadau'n caniatáu i fesurau eraill gael eu hawgrymu erbyn 1 Hydref 2022. Mae "pedwar neu bump" o gynigion wedi dod i law, a chadarnhaodd y Gweinidog Materion Gwledig ar y pryd i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 13 Rhagfyr i 2023 ei bod yn dal i fod yn agored i gynigion.

49. Hefyd, ymrwymodd y Gweinidog Materion a Gwledig ar y pryd i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol pellach (fel y cytunwyd yn flaenorol drwy'r Cytundeb Cydweithio) i ystyried effeithiau economaidd ac amgylcheddol y terfyn 170kg/ha. Bydd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiad o ddewisiadau amgen arfaethedig yn llywio'r adolygiad pedair blynedd o'r rheoliadau sydd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn 1 Ebrill 2025.

50. Trafododd Clare Pillman y gwaith o fonitro effaith y Dull Rheoli Maethynnau Uwch ar amryw bryderon amgylcheddol, megis bioamrywiaeth a rheoli llifogydd. Er gwaethaf y ffaith bod y cyfyngiadau ar lefelau nitrogen fesul hectar wedi'u llacio, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith monitro'n parhau. Dywedodd y bydd y wybodaeth a'r data monitro sydd ar gael yn cyfrannu at adolygiad sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru.

51. Ymatebodd Clare Pillman i bryderon ynghylch pa mor ddigonol yw'r gyllideb ar gyfer monitro a gorfodi o dan y drefn rheoli maethynnau newydd. Cydnabu'r cyfyngiadau cyllidebol a disgrifiodd y cyllid o £2.5 miliwn gan Lywodraeth Cymru fel y lleiafswm yr oeddent yn teimlo sy'n ymarferol i ddarparu gwasanaeth yn y maes hwn. Bydd y cyllid hwn yn ariannu tîm sy'n canolbwyntio ar arolygiadau cydymffurfio a gorfodi.

52. Yn olaf, cadarnhaodd Clare Pillman fod trafodaethau rhagarweiniol gyda Llywodraeth Cymru ynghylch yr adolygiad pedair blynedd o'r rheoliadau i fod i ddechrau'n fuan.

Plannu coed

53. Gyda 15 y cant o orchudd coed, Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop. Mae cyfraddau plannu coed wedi bod yn is na thargedau Llywodraeth Cymru am nifer o flynyddoedd. Yn 2021, arweiniodd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar y pryd, archwiliad dwfn i ddileu rhwystrau i blannu. O ganlyniad, gosododd Llywodraeth Cymru darged i blannu 43,000 hectar o goed newydd erbyn 2030 (bron i 5,000 hectar y flwyddyn), gan godi i 180,000 hectar erbyn 2050 (dros 6,000 hectar y flwyddyn) i helpu i gyrraedd sero net, yn gyson â chyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU.

Rôl CNC o ran plannu coed a rheoli coedwigoedd

54. Eglurodd Clare Pillman mai CNC sy'n gyfrifol am reoli ystâd goetiroedd Llywodraeth Cymru a thynnodd sylw at ddau ddiben y mae CNC yn plannu coed ar eu cyfer - plannu i gymryd lle coed a gollwyd i glefydau fel clefyd llarwydd neu

blannu i gymryd lle coed sy'n cael eu torri am bren. Esboniodd y broses o wneud penderfyniadau ar ôl cwmpo coed, gan ddweud bod penderfyniad bob amser yn cael ei wneud, ar sail y wybodaeth yn y cynllun adnoddau coedwig, ynghylch a ddylai'r llannerch honno gael ei hailblannu, ei hailstocio, neu a ddylid gadael iddi adfywio'n naturiol.

55. Esboniodd Clare Pillman fod CNC yn defnyddio cyllid o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar ystâd goetiroedd Llywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o blannu coed yn lle'r rhai a gollir. Mae hyn yn golygu prynu tir ar gyfer plannu coed i wneud iawn am golli gorchudd coed o ganlyniad i'r datblygiadau ffermydd gwynt hynny, gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd rhwng defnydd tir ac effaith amgylcheddol.

56. Wrth fynd i'r afael â phryderon ynghylch defnyddio tir amaethyddol ar gyfer plannu coed, rhoddodd Clare Pillman sicrwydd i'r Pwyllgor fod CNC yn ofalus wrth ddewis tir, gan roi blaenoriaeth i dir llai ffrwythlon ar gyfer coedwigo. Roedd hi'n cefnogi dull gweithredu cytbwys sy'n integreiddio plannu coed ag arferion ffermio traddodiadol.

Ardaloedd draenio mewnol

57. Mewn ymateb i gwestiwn, tynnodd Clare Pillman sylw at yr anghysondeb sylweddol ymhlith ardaloedd draenio mewnol yng Nghymru, gan nodi'r gwahaniaethau mewn maint a graddfa weithredol. Mae hyn yn effeithio ar sut caiff pob ardal ei rheoli a'i hariannu, gan effeithio ar eu heffeithlonrwydd cyffredinol a chwmpas y gwaith y gellir ei gyflawni yno.

58. Nododd Clare Pillman fod yr ardaloedd draenio hyn yn gweld patrymau llifogydd cynyddol oherwydd newid hinsawdd. Pwysleisiodd yr angen am ailwerthusiad strategol o ardaloedd draenio mewnol, yn enwedig o ran sut y maent yn cyd-fynd â nodau amgylcheddol ehangach, gan gynnwys Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig Llywodraeth Cymru.

Ein barn ni

Bioamrywiaeth

Rydym yn parhau i bryderu nad oes gan CNC ddigon o dystiolaeth i bennu beth yw cyflwr tua hanner y nodweddion ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Mae lefelau staffio ac adnoddau presennol yn annigonol i gyflawni nodau cadwraeth, a nodwn yr awgrym y gallai fod angen dyblu nifer y staff i fynd i'r afael yn effeithiol â'r heriau a nodwyd. Rydym yn cydnabod bod

Llywodraeth Cymru a CNC yn wynebu heriau ariannol. Serch hynny, rhaid inni ddod o hyd i ffordd o wneud cynnydd. Edrychwn ymlaen at archwilio'r materion hyn gydag Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd.

Mae'r Pwyllgor hwn yn dychwelyd yn rheolaidd at y mater o ysgogi buddsoddiad, a byddwn yn pwysu ar Ysgrifennydd newydd y Cabinet ar y mater hwn. Credwn fod gwerth mewn datblygu fframwaith ariannu cydgysylltiedig sy'n caniatáu ar gyfer dyrannu adnoddau'n strategol o wahanol ffynonellau.

Yn olaf, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf gan CNC ynghylch y gwaith y mae'n ei wneud mewn perthynas â datblygu targedau bioamrywiaeth.

Dull Rheoli Maethynnau Uwch

Nodwn gyda phryder yr anghytuno sylweddol ymhlith rhanddeiliaid ynghylch y dull o reoli llygredd amaethyddol. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru geisio hwyluso deialog rhwng CNC, ffermwyr, a grwpiau amgylcheddol.

Os yw'r dull newydd am fod yn effeithiol, credwn ei bod yn hollbwysig sicrhau adnoddau digonol i'w fonitro a'i orfodi. Fodd bynnag, nodwn fod pryderon eang ynghylch pa mor ddigonol yw'r gyllideb ar gyfer y gweithgareddau hyn. Dylai CNC a Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r mater hwn.

Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i effeithiolrwydd y Dull Rheoli Maethynnau Uwch a'i effaith ar ansawdd dŵr ac arferion amaethyddol. Credwn y dylai'r Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod yr adolygiad sydd ar y gweill o'r Rheoliadau yn dryloyw ac yn systematig. Dylai'r Ysgrifennydd y Cabinet sicrhau bod canfyddiadau'r adolygiad ar gael i'r cyhoedd ac yn cael eu defnyddio i lywio newidiadau polisi.

Maes o law, byddwn yn gofyn i'r Ysgrifennydd y Cabinet roi sicrwydd fod y Dull Rheoli Maethynnau Uwch yn sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol yr ydym am eu gweld.

Plannu coed

Er ein bod yn croesawu ymdrechion diweddar y cyn-Weinidog a'r cyn-Ddirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, rydym yn parhau i bryderu am y diffyg cynnydd o ran plannu coed. Nodwn nad mater i CNC yw hwn ond byddwn yn codi'r mater gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd sydd newydd ei benodi.

Croesawn sylwadau CNC am ddefnyddio arian o ddatblygiadau ffermydd gwynt i blannu coed yn lle'r rhai a gollir. Anogwn CNC i archwilio'r potensial ar gyfer

ehangu cwmpas y gwaith o blannu coed yn lle'r rhai a gollir i gynnwys datblygiadau eraill sy'n effeithio ar yr amgylchedd. Gallai hyn gynnwys datblygu partneriaethau gyda sectorau eraill i ariannu mentrau plannu coed ychwanegol.

Nodwn sylwadau CNC ynghylch a ddylid ailblannu, ailstocio, neu ganiatáu adfywio naturiol ar ôl cwmpo coed. Dylid adolygu cynlluniau adnoddau yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymgorffori'r gwaith ymchwil ecolegol a'r rhagamcanion newid hinsawdd diweddaraf. At hynny, dylai CNC geisio cynyddu'r defnydd o rywogaethau brodorol a phlannu cymysg i wella bioamrywiaeth a'r gallu i wrthsefyll clefydau.

O ran y mater o ardaloedd draenio mewnol, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf gan CNC ynghylch unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Argymhellion

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio cyfleoedd i ddatblygu a gweithredu fframwaith ariannu cydgyssylltiedig sy'n caniatáu ar gyfer dyrannu adnoddau'n strategol o wahanol ffynonellau i gefnogi cadwraeth bioamrywiaeth.

Argymhelliad 9. Dylai CNC roi diweddariad manwl ar gynnydd y gwaith o ddatblygu targedau bioamrywiaeth statudol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso deialog rhwng CNC, ffermwyr a grwpiau amgylcheddol i fynd i'r afael â'r anghytundo sylweddol ynghylch y dull o reoli llygredd amaethyddol.

Argymhelliad 11. Dylai CNC barhau i adolygu pa mor ddigonol yw'r adnoddau ar gyfer monitro a gorfodi'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch sy'n cael ei adolygu.

Argymhelliad 12. Dylai CNC adolygu ei gynlluniau adnoddau coedwigaeth yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ymgorffori'r gwaith ymchwil ecolegol a'r rhagamcanion newid hinsawdd diweddaraf, a chynyddu'r defnydd o rywogaethau brodorol a phlannu cymysg i wella bioamrywiaeth a gwella'r gallu i wrthsefyll clefydau.

Argymhelliad 13. Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ynghylch rheoli ardaloedd draenio mewnol a'r cynlluniau ar eu cyfer.